# EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYTHO.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Gadeiriol flynyddol yn y Neuadd prynhawn a nos Sadwrn, Ebrill 11eg. Y Beirniaid oedd - Cerdd a Cherdd Dant: Geraint Roberts, Prestatyn; Llefaru a Rhyddiaith: Elin Williams, Cwmann; Barddoniaeth: Y Prifardd Rhys Iorwerth, Caernarfon; Arlunio a Gwaith Llaw: Elin Huws, Llanbedrog. Yn cyfeilio 'r oedd Catrin Alwen, Chwilog. Llywydd y Dydd oedd Hedydd Lea Dyer, Alderholt, Swydd Dorset, ond yn wreiddiol o Fynytho. Cafwyd anerchiad ganddi yng nghyfarfod y prynhawn. Yr Arweinyddion oedd Netta Pritchard a Fflur Rees Jones.

Cymerwyd rhan yn Seremoniau'r Cadeirio a'r Tlws Coffa i'r Ieuenctid gan Dilwyn Thomas, Carol Pugh, Siân Thomas, Bethan Dyer, Fflur Rees Jones, a Gwydion a Finn, Ysgol Foel Gron.

Enillwyd y model o Gadair yr Eisteddfod - o waith Miriam Jones, Llanengan, ac yn rhoddedig gan Berwyn a Brenda Williams, Gwelfryn, Mynytho, - gan Robin Humphreys, Nefyn, am gerdd rydd, heb fod dros 100 llinell, ar y testun 'Ysbrydion'. Mae Robin yn 17eg. oed, ac ar hyn o bryd yn ddisgybl 6ed. Dosbarth yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Ei fwriad ym mis

Medi yw mynd i Brifysgol Caerdydd i astudio Cymraeg a Newyddiaduraeth. Ef yw'r person ieuengaf erioed i ennill y Gadair yn Eisteddfod Mynytho.

Enillydd y Tlws Coffa o dan 19eg. oed oedd Loti Dobson, am ddarn o ryddiaith yn ymateb i'r geiriau 'Caeth / Rhydd'. Myfyrwraig yng Ngholeg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau yw Loti, yn astudio Cymraeg, y Gyfraith a Chymdeithaseg fel pynciau lefel A. Rhoddir y Tlws gan Mrs. Ann Jones, Pwllheli (gynt o Dinas) er cof am ei phriod, Thomas W. Jones.

Enillwyd Tlws Einion am yr erthygl orau a ymddangosodd yn 'Llanw Llŷn' rhwng Medi 2024 a Gorffennaf 2025, gan Gareth Williams, Neigwl, Botwnnog. Cyhoeddwyd yr erthygl yn rhifyn mis Ionawr 2025 o dan y pennawd 'Mic Pawen Ddu'. Y Beirniad eleni oedd Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug. Gareth sydd yn gofalu am y golofn farddol 'Llên y Llanw'.

Swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod eleni oedd – Llywydd: Gwilym Jones; Is-lywydd: Glenys Williams; Trysorydd: Siân Thomas; Is-Drysorydd: Glenys Williams; Ysgrifennydd: Dilwyn Thomas.

Dymar enillwyr:

Cerddoriaeth:- Unawd dan 6 oed - 1 (medal) Gruff Llywelyn, Ceidio; 2 (cyd.) Eos Celyn, Irlam, Manceinion; a Glain Meilir, Llannor; 3 Llelo, Uwchmynydd.

Unawd Bl. 2 ac iau - 1 (medal) Nanw Wyn Jones, Mynytho; 2 Lois, Abererch; 3 (cyd.) Hana, Mynytho; a Martha Elen, Garndolbenmaen.

Unawd Bl. 3 a 4 - 1 (medal) Arawn Huws, Bontnewydd; 2 Betw Llywelyn, Ceidio.

Unawd Bl. 5 a 6 - 1 (medal) Wmffra Llywelyn, Ceidio; 2 (cyd.) Alis Rhiannon, Trefor, ac Anes Euros, Llangybi.

Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau: 1 (medal) Anes Euros, Llangybi; 2 Alis Rhiannon, Trefor; 3 Arawn Huws, Bontnewydd.

Alaw Werin Bl. 6 ac iau - 1 (medal) Anes Euros, Llangybi; 2 Alis Rhiannon, Trefor; 3 Wmffra Llywelyn, Ceidio.

Unawd Piano Bl. 6 ac iau - 1 (medal) Anes Euros, Llangybi; 2 Swyn Huws, Bontnewydd.

Deuawd Bl. 6 ac iau - 1 Swyn ac Arawn Huws, Bontnewydd.

Unawd Merched Bl. 7, 8 a 9 - 1 (cwpan) Cadi Ellis, Nefyn; 2 Lois Jones, Sarn.

Unawd Bechgyn Bl. 7, 8 a 9 - 1 (cwpan) Celt Arfon, Llanaelhaearn.

Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9 – 1 (Cwpan) Lois Jones, Sarn.

Alaw Werin Bl. 7, 8 a 9 – 1 (Cwpan) Celt Arfon, Llanaelhaearn; 2 Cadi Ellis, Nefyn.

Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9 – 1 (cwpan) Hywyn Euros, Llangybi.

Cân o Sioe Gerdd Bl. 7, 8 a 9 – 1 (Cwpan) Lois Jones, Sarn.

Llefaru:- Dan 6 oed – 1 (medal) Gruff Llywelyn, Ceidio; 2 Martha Jones, Garndolbenmaen; 3 Eos Celyn, Manceinion.

Bl. 2 ac iau – 1 (medal) Nanw Elen, Garn Fadrun; 2 Martha Elin Jones; Garndolbenmaen; 3 (cyd.) Nanw Wyn Jones, Mynytho, a Lois, Abererch.

Bl. 3 a 4 – 1 (medal) Gwil Jones, Garndolbenmaen; 2 Betw Llywelyn, Ceidio.

Bl. 5 a 6 – 1 (medal) Anes Euros, Llangybi; 2 Lili, Rhoshirwaun; 3 Megan, Llangian.

Bl. 7, 8 a 9 – 1 (Cwpan) Hywyn Euros, Llangybi; 2 Cadi Ellis, Nefyn; 3 Celt Arfon, Llanaelhaearn.

Unawd Bl. 10 a dan 19 oed – 1 (Cwpan) Liam Arfon, Llanaelhaearn; 2 Cadi Midwood, Morfa Nefyn.

Unawd Piano Bl. 10 a dan 19 oed – 1 (Cwpan) Lea Mererid Roberts, Pwllheli.

Dan 19 oed: Canu unrhyw offeryn

heblaw'r piano – 1 (Cwpan) Lea Mererid Roberts, Pwllheli.

Unawd Cerdd Dant Bl. 10 a dan 19 oed – 1 (Tlws) Cadi Midwood, Morfa Nefyn; 2 Neli Rhys, Caernarfon.

Unawd dan 25 oed – 1 (Cwpan) Liam Arfon Jones, Llanaelhaearn; 2 Elain Rhys, Trawsfynydd; 3 Erin Llwyd, Glanrafon, Corwen.

Unawd allan o Sioe Gerdd dan 25 oed – 1 (Cwpan) Liam Arfon Jones, Llanaelhaearn; 2 (cyd.) Erin Llwyd, Glanrafon, ac Elain Rhys, Trawsfynydd; 3 Cadi Midwood, Morfa Nefyn.

Unawd Agored: Canu Unrhyw Emyn – 1 (Cwpan) Elain Rhys, Trawsfynydd; 2 (cyd.) Robin Hughes, Nanmor, ac Erin Llwyd, Glanrafon; 3 (cyd.) Cadi Midwood, Morfa Nefyn, a Merfyn Jones, Pwllheli.

Cân Werin Agored – 1 (Cwpan) Robin Hughes, Nanmor; 2 Elain Rhys, Trawsfynydd; 3 (cyd.) Liam Arfon, Llanaelhaearn, ac Erin Llwyd, Glanrafon.

Unawd Cerdd Dant Agored – 1 (Cwpan) Erin Llwyd, Glanrafon; Elain Rhys, Trawsfynydd.

Unawd Gymraeg Agored – 1 (Cwpan) Robin Hughes, Nanmor; 2 Elain Rhys, Trawsfynydd, ac Erin Llwyd, Glanrafon; 3 (cyd.) Rhys Roberts, Y Ffôr, a Liam Arfon, Llanaelhaearn.

Her Unawd - 1 (Cwpan) Rhys Roberts, Y Ffôr; 2 Robin Hughes, Nanmor.

Cystadleuaeth Gorawl Eisteddfodau Cymru - 1 (Cwpan) Côr Cantorion Llŷn.

Parti Unsain neu Ddeulais - 1 Merched Cantorion Llŷn.

Llefaru :- Blwyddyn 10 a dan 19 oed - 1 (Cwpan) Beca Dwyryd, Porthmadog; 2 Neli Rhys, Caernarfon; 3 Cadi Midwood, Morfa Nefyn.

Dan 25 oed - 1 (Cwpan) Erin Llwyd, Glanrafon; 2 Beca Dwyryd, Porthmadog.

Prif Gystadleuaeth Llefaru - 1 (Cwpan) Owain Rhys, Chwilog; 2 Erin Llwyd, Glanrafon.

Grŵp Llefaru Agored - 1 (Tarian) Lleisiau Cafflogion; 2 Parti Coleg Meirion-Dwyfor.

I bob oed: Cystadleuaeth 'Sgen ti dalent?' - 1 Lois Jones, Sarn; 2 Cadi Midwood, Morfa Nefyn.

Cyfansoddi Cân - 1 Dr. Alun Rhys Williams, Cilgerran, Aberteifi.

Llenyddiaeth

Blwyddyn Derbyn ac 1 - 1 (medal) Cadi Owen, Ysgol Foel Gron, Mynytho; 2 Glain, Ysgol Crud-y-Werin, Aberdaron; 3 (Cyd.)

Glain Meilir, Llannor, a Gruffudd Llywelyn, Ceidio.

Blwyddyn 2 – 1 (medal) Cleo, Ysgol Foel Gron; 2 (cyd.) Nedw ac Alys, Ysgol Crud-y-Werin; 3 Dafi, Ysgol Foel Gron.

Bl. 3 a 4 – 1 (medal) Betw Nel Llywelyn, Ceidio; 2 Casi, Ysgol Crud-y-Werin; 3 Gwen a John, Ysgol Crud-y-Werin.

Bl. 5 a 6 – 1 (Medal) Anes Euros, Llangybi; 2 Math, Ysgol Crud-y-Werin; 3 (cyd.) Enfys ac Erwan, Ysgol Crud-y-Werin.

Dan 16 oed (Barddoniaeth) – 1 William Bryniog, Ysgol Botwnnog.

Dan 16 oed (Rhyddiaith) – 1 Nanw Huw Williams; 2 Meinir Roberts-Williams, Ysgol Glan-y-môr, Pwllheli; 3 (cyd.) Cati Roberts, Ysgol Botwnnog, a Hywyn Euros, Llangybi.

Dan 19 oed (Tlws Coffa) – 1 Loti Dobson, Coleg Meirion-Dwyfor.

I bob oed – Barddoniaeth:

Darn llefaru i blant dan 6 oed – 1 Owenna Hughes, Pencaenewydd.

Emyn i ddathlu canlyniad arholiad – 1 John Meurig Edwards, Aberhonddu.

Cywydd – 1 Emlyn Williams, Caerdydd.

Soned – 1 Hannah M. Roberts, Llandaf, Caerdydd.

Telyneg – 1 Emlyn Williams, Caerdydd.

Englyn – 1 Emlyn Williams, Caerdydd.

Englyn Ysgafn – 1 Ewan Smith, Bae Colwyn.

Cystadleuaeth y Gadair – Robin Humphreys, Nefyn.

Rhyddiaith:
Ysgrif - 1 Gaenor Mai Jones, Pentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf.

Arlunio

Meithrin a Derbyn - 1, 2 a 3 Bleddyn Rees Jones, Mynytho.
Blwyddyn 1 a 2 - 1 Tomos; 2 Nedw, Ysgol Crud-y-Werin; 3 Ruben, Ysgol Foel Gron.
Blwyddyn 3 a 4 - 1 Guto Dop, Ysgol Sarn Bach; 2 Eos Jones, Rhiw; 3 (cyd.) Siwan Jones a 'Mari', Ysgol Sarn Bach.
Blwyddyn 5 a 6 - 1 Swyn; 2 Elia; 3 (cyd.) Siwan ac Alys, Ysgol Crud-y-Werin.
Blwyddyn 7, 8, 9 a 10 - 1 Eleri Hinde, Ysgol Eifionydd, Porthmadog.
I bob oed - 1 (Cwpan) Gwenan Thomas, Efailnewydd; 2 Merfyn Jones, Pwllheli.

Gwaith Llaw

Meithrin a Derbyn - 1 Owi Wyn, Ysgol Sarn Bach; 2 Glain Meilir, Llannor; 3 Noa Glyn, Ysgol Sarn Bach.
Blwyddyn 1 a 2 - 1 Hari, Alfie a Deio, Ysgol Foel Gron; 2 Lili Thomas, Ysgol Sarn Bach; 3 Nanw Wyn Jones, Mynytho.
Blwyddyn 3 a 4 - 1 Betw Nel Llywelyn, Ceidio.
Blwyddyn 7, 8, 9 a 10 - 1 Siân Hayley Williams, Ysgol Eifionydd, Porthmadog.